



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai: Diweddariad Rhanddeiliaid, Medi 2019

Mae cryn dipyn o amser wedi mynd heibio ers y diweddariad rhanddeiliaid diwethaf ym mis Ionawr. Nid yw hynny'n golygu nad ydym wedi bod yn gweithio'n galed ers hynny.

Ymestyn y Rhaglen

Gwnaethom eich hysbysu y tro diwethaf ein bod wedi derbyn cadarnhad o gyllid am ddwy flynedd arall hyd at ddiwedd mis Mawrth 2021. Diben y cyllid hwn yw gwneud cymaint â phosibl o waith dadansoddi ar ddata Arolwg Cyflwr Tai Cymru, parhau i ddatblygu a defnyddio Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai a chynnal arfarniad o'r opsiynau ar gyfer dyfodol y Rhaglen. Mae'r gwaith ar ddadansoddi data Arolwg Cyflwr Tai Cymru wedi bod yn datblygu'n dda yn ogystal â'r broses barhaus o ddatblygu Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai, fel y nodir isod. Cyn diwedd y flwyddyn, rydym yn bwriadu creu arfarniad manwl o'r opsiynau ac achos busnes o blaid parhau â'r Rhaglen a'i gyflwyno i Weinidogion. Rydym eisoes wedi siarad â nifer o randdeiliaid mewnol i lywio'r gwaith hwn a byddwn yn cysylltu â rhanddeiliaid allanol yn ystod y misoedd nesaf. Os oes gennych unrhyw gyfraniad at y broses hon [cysylltwch â ni](#).

Arolwg Cyflwr Tai Cymru

Ym mis Ebrill, gwnaethom gyhoeddi [Asesiad o Elfennau o'r Safon Ansawdd Tai Cymru ar gyfer pob deiliadaeth yn seiliedig ar ddata Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18](#).

Ym mis Mai gwnaethom gyhoeddi [Prif Ganlyniadau'r Amcangyfrifon Tlodi Tanwydd ar gyfer Cymru: 2018](#). Diben yr adroddiad hwn oedd cyhoeddi'r prif ffigurau cyn gynted â phosibl, gan mai yn 2010 y cafodd y prif ganlyniadau blaenorol eu cyhoeddi ac roeddent yn seiliedig ar ddata eiddo Arolwg Byw yng Nghymru 2008. Yn ystod y mis diwethaf, gwnaethom gyhoeddi dadansoddiad manwl o'r [Amcangyfrifon tldi tanwydd ar gyfer Cymru: 2018](#). Roeddem wedi gobeithio cyhoeddi'r adroddiad o Effeithlonrwydd Ynni Anheddau ar yr un adeg, ond mae newidiadau ymhlith y staff ac absenoldeb hirdymor o fewn y tîm wedi ein gorfodi i oedi'r broses tan ddiwedd mis Hydref.

Cyhoeddiadau eraill

Dros y misoedd nesaf, rydym yn bwriadu cyhoeddi'r adroddiadau canlynol fel y nodir yn ein [Cynllun Cyhoeddi](#):

- Effeithlonrwydd Ynni Anheddau (gan gynnwys gwresogi a mesurau arbed ynni ayyb.)
Cyhoeddwyd ar gyfer 23 Hydref 2019
- Nodweddion a chyflwr y Stoc Tai ac aelwydydd (yn dilyn y Prif Ganlyniadau a gyhoeddwyd fis Rhagfyr diwethaf).
- System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai.
- Cymhorthion ac Addasiadau.

Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru

Ar ôl llunio fersiwn prawf cysyniad o Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai yn 2018, arafodd y gwaith yn yr hydref er mwyn canolbwyntio ar ddadansoddi canlyniadau Arolwg Cyflwr Tai Cymru. Mae gwaith ar Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai bellach wedi aildechrau ac rydym yn gweithio gydag Uned Ymchwil Data Gweinyddol Llywodraeth Cymru i gyflwyno achosion busnes i SYG ar gyfer rhannu data perthnasol o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol. Caiff data presennol Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai eu symud i'r llwyfan gwe-letya hirdymor (Llwyfan e-Ymchwil Diogel yn y DU) yn ystod y misoedd nesaf, mae cytundeb ar waith gyda Phrifysgol Abertawe ar gyfer y llwyfan hwn a bydd ffocws ar greu ein strwythurau llywodraethu yn seiliedig ar hyn. Byddwn yn ceisio ychwanegu gwybodaeth am ddefnydd ynni, mesuryddion deallus a mesuryddion rhagdalau gan yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (BEIS) ac yn ymgysylltu â darparwyr tai cymdeithasol er mwyn cael mynediad at eu data rheoli stoc.

Diweddariad ar staffio

Cafwyd nifer o newidiadau ymhlith y staff dros y chwe mis diwethaf. Diolch i'r rheini sydd wedi bod yn rhan o'r tîm ac sydd wedi symud ymlaen (Elinor sydd ar gyfnod mamolaeth a Jenny a Gareth sydd wedi symud ymlaen i swyddi eraill). Ailymunodd Abi Woodham, a oedd yn arfer gweithio yn y tîm, â ni ym mis Ebrill fel Arweinydd Arolwg Cyflwr Tai Cymru. Caiff Abi ei chefnogi gan Laura Andrews. Ymunodd Josh Dixon â ni ym mis Mehefin i arwain Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai.

Defnyddio data Arolwg Cyflwr Tai Cymru i gefnogi'r dadansoddiad

Datgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru

Gwnaeth Gweinidogion gomisiynu Grŵp Cyngori annibynnol ar Ddatgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru y llynedd i edrych ar sut y gellid lleihau allyriadau carbon mewn tai yng Nghymru erbyn 2050. Mae'r Grŵp, a gaiff ei gadeirio gan Christopher Jofeh, sef cyn-arweinydd ôl-osod adeiladau byd-eang Arup, wedi ystyried y dystiolaeth ar sut y gellir creu'r amodau angenrheidiol ar gyfer llwyddiant.

Cyhoeddwyd adroddiad '[Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell](#)' ym mis Gorffennaf ac mae'n cydnabod yr heriau gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol sy'n gysylltiedig â gwneud tai yn wyrddach ac yn fwy ynni effeithlon. Bydd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn ystyried argymhellion a chymau gweithredu manwl yr adroddiad ac yn ymateb iddynt yn ystod yr hydref.

Defnyddiodd Ysgol Pensaernïaeth Cymru ddata Arolwg Cyflwr Tai Cymru i roi tystiolaeth i'r Grŵp Cynghori¹.

Gwneud Gwahaniaeth - Tai ac Iechyd: Yr Achos dros Fuddsoddi 2019

Roedd adroddiad "[Gwneud Gwahaniaeth - Tai ac Iechyd: Yr Achos dros Fuddsoddi 2019](#)", a gyhoeddwyd ym mis Mehefin gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru a BRE yn dadansoddi cost tai gwael yng Nghymru gan ddefnyddio'r Arolwg Cyflwr Tai Cymru diweddaraf.

Ymgynghoriad ar Dlodi Tanwydd

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dechrau ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun trechu tloidi drafft ym mis Hydref, a chaiff y cynllun terfynol ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2020. Byddwn yn anfon doler i'r ymgynghoriad pan fydd wedi ei gyhoeddi.

Cysylltwch â ni

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar [dudalennau'r Rhaglen](#) neu drwy gysylltu ag ystadegau.cyflwrtai@llyw.cymru.

Dat-danysgrifo

Rhowch wybod i ni os nad ydych yn dymuno derbyn y diweddariadau yma yn y dyfodol.

E-bost: ystadegau.cyflwrtai@llyw.cymru

¹[Datgarboneiddio Tai Cymru: Adroddiad Cam 2](#)